

Eich gwybodaeth
Eich hawliau

Gwybodaeth amdanoch **chi**



Taflen yn esbonio pam bydd GIG Cymru yn casglu gwybodaeth amdanoch a sut allai ddefnyddio'r manylion hynny

Mae hefyd yn nodi eich hawl i weld eich cofnodion iechyd a sut i gael hyd iddynt

Pam fydd GIG Cymru yn casglu gwybodaeth amdanoch?



Helpu **chi**

Bydd eich meddyg (ysbyty & teulu), neu weithwyr iechyd eraill sy'n gofalu amdanoch, yn cadw cofnodion am eich iechyd ac unrhyw driniaeth neu ofal byddwch yn derbyn gan GIG Cymru. Nodir yr wybodaeth ar bapur neu gyfrifiadur. Yna, defnyddir y cofnodion i lywio a rheoli eich gofal. Bydd yn sicrhau'r isod:

- gweithwyr iechyd yn cyfrannu at eich gofal yn derbyn gwybodaeth gywir a diweddar er mwyn asesu eich iechyd a phennu'r gofal angenrheidiol
- anfon gwahoddiadau atoch i dderbyn triniaeth reolaidd megis brechiadau a sgrinio
- seiliau cadarn i asesu math ac ansawdd y gofal byddwch wedi derbyn, gan ddarparu gofal gwell i chi ac eraill yn y dyfodol
- os bydd angen cwyno am eich gofal, byddwn yn gallu ymchwilio eich pryderon neu gwynion yn drylwyr

Efallai byddwch yn derbyn gofal gan gyrrff na fydd yn rhan o GIG Cymru, megis gwasanaethau cymdeithasol neu ddarparwyr gofal iechyd preifat a gwirfoddol. Os felly, efallai bydd angen rhannu rhywfaint o wybodaeth amdanoch fel bod pawb yn cyfrannu at eich gofal yn gallu cydweithio er eich lles.

Byddwn ond yn defnyddio neu drosglwyddo eich gwybodaeth i eraill yn cyfrannu at eich gofal os byddant angen y manylion hynny.

Os defnyddir eich gwybodaeth wrth ofalu amdanoch, cedwir yn gyfrinachol ar bob amser. Bydd GIG Cymru yn gwneud yr isod:

- fel arfer ddim yn datgelu eich gwybodaeth bersonol heb eich caniatâd, oni fydd er eich lles neu'n unol â'r gyfraith
- trosglwyddo dim ond yr isafswm gwybodaeth angenrheidiol i eraill
- sicrhau bydd dyletswydd ar bawb yn derbyn gwybodaeth amdanoch i gadw'r manylion yn gyfrinachol a'u defnyddio ar gyfer y diben penodedig yn unig
- sicrhau bydd cytundebau rhannu gwybodaeth rhwng cyrrff yn rheoli dulliau rhannu eich gwybodaeth
- trefnu systemau cadarn er mwyn atal mynediad anawdurdodedig i gofnodion cleifion a ddelir ar ei gyfrifiaduron

Helpu **GIG Cymru**

Yn ogystal, defnyddir eich gwybodaeth i helpu i reoli a gwella GIG Cymru. Gellir defnyddio'r manylion yn achos yr isod:

- adolygu'r gofal a roir i gleifion er mwyn cynnal y safonau uchaf posibl
- cynllunio gwasanaethau mewn ymateb i anghenion cleifion yn y dyfodol
- ymchwilio cwynion, hawliadau cyfreithiol neu achosion o bwys
- defnyddio arian yn gywir i dalu am y gwasanaethau bydd yn darparu
- gwirio ac adrodd ar effeithiolrwydd GIG Cymru
- sicrhau bydd GIG Cymru yn darparu gwerth am yr arian

Ble bynnag yn bosibl, tynnir yr holl fanylion personol. Os na fydd modd gwneud hynny, trefnir rheolau a chontractau penodol er diogelu cofnodion cleifion.

Weithiau rhaid i GIG Cymru ddefnyddio cyrff allanol i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, er enghraifft gwasanaethau archwilio neu gynnal cyfrifiaduron. Bryd hynny, rhaid i'r cyrff ddilyn rheolau caeth GIG.

Helpu eraill

Gellir defnyddio eich gwybodaeth i helpu i ddiogelu a gwella iechyd pobl eraill, a helpu i greu gwasanaethau newydd.

Pan fydd angen, er mwyn cydymffurfio a'r gyfraith, efallai bydd rhaid i'r meddyg drosglwyddo eich gwybodaeth i gyrff eraill. Er enghraifft, os yn dioddef o glefyd heintus a allai beryglu eraill (ee meningitis neu'r frech goch).

Bydd rhai gwasanaethau angen gwybodaeth er mwyn cynnal ymchwil feddygol a dysgu sut bydd clefydau'n datblygu. Bydd hynny'n hwyluso'r isod:

- cyrff gofal iechyd yn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol a darparu'r gwasanaethau iawn ar gyfer y bobl iawn
- gwneud diagnosis a rheoli clefydau
- gwella effeithiolrwydd cyffuriau, er enghraifft wrth leihau sgil effeithiau



Gweld eich cofnodion iechyd

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawl i chi weld neu dderbyn copi o'ch cofnodion iechyd (cyfrifiadurol neu ysgrifenedig). Fel arfer bydd swm yn daladwy (uchafswm £50).

Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i weld eich cofnodion iechyd a dylech ddarparu gwybodaeth ddigonol i'ch adnabod a'r cyfnod neu driniaeth yr hoffech weld cofnodion ohonynt.

Ar ôl gwirio eich cais byddwn yn eich hysbysu o unrhyw symiau i'w talu.

Darperir eich gwybodaeth o fewn 40 diwrnod calendr ar ôl derbyn eich ffi.

O dan y gyfraith gall fod rhai amgylchiadau prin pan na fydd yn bosibl darparu'r wybodaeth berthnasol.

Os am weld eich cofnodion iechyd GIG Cymru, anfonwch eich cais at y corff yn darparu eich triniaeth. Manylion pellach yn **www.nhsdirect.wales.nhs.uk**.



Gwybodaeth ar gyfrifiaduron

Bydd GIG Cymru yn storio eich gwybodaeth ar systemau cyfrifiadurol, er enghraifft manylion cyswllt, canlyniadau labordai a phelydr-x.

Erbyn hyn mae technolegau newydd yn caniatáu rhannu eich gwybodaeth rhwng cyfrifiaduron GIG Cymru. O ganlyniad, bydd manylion pwysig am eich iechyd ar gael i weithwyr iechyd yn gofalu amdanoch, dim ots ble byddwch yn derbyn y gofal. Er enghraifft, meddygon a nyrsys yn gweithio yn y gwasanaeth all-oriau yn gallu gweld rhannau o'r cofnodion iechyd yn nwylo'r meddyg teulu (Cymru gyfan erbyn 2011). Dyma'r buddion i chi a'r meddyg:

- mynediad uniongyrchol i'ch cofnodion iechyd mewn argyfwng
- gweithwyr gofal iechyd yn gallu gweld eich cysylltiadau iechyd, moddion a manylion gadael ysbytai cyfredol a blaenorol
- arbed amser wrth grynhoi gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau hanfodol am eich gofal



Manylion pellach

Os yn poeni am ddefnydd o'ch gwybodaeth, dylech drafod hynny gyda'r gweithiwr gofal iechyd yn gyfrifol am eich gofal.

Am fanylion pellach am ddefnydd o'ch gwybodaeth bersonol ewch i wefan GIG Cymru **www.nhsdirect.wales.nhs.uk**.

